# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## HSS(2)-10-06(p9)

### Dyddiad: Dydd Iau 15 Mehefin 2006
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Y diweddaraf ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd

#### Diben

Papur i'w Nodi ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau yn Ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru.

#### Crynodeb

Ar hyn o bryd 95.5% yw'r lefel cydymffurfiaeth â'r gyfarwyddeb oriau gwaith ymhlith meddygon iau o'i gosod yn erbyn y targedau gwaith a gorffwys ar gyfer 2004.

Y Cefndir - Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd

Mae'r ffigurau cyfredol ar gyfer i ba raddau y cydymffurfir â chyfyngiadau gwaith a gorffwys y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd wedi cynyddu'n gyson unwaith eto. Erbyn hyn, mae'n 95.5% o'i osod yn erbyn cyfyngiadau oriau gwaith 2004. Penderfynwyd y dylid, yn y dyfodol, fesur data cydymffurfio yn erbyn y cyfyngiad oriau gwaith nesaf, a fydd yn weithredol o Awst 2007, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynllunio i'r dyfodol.

Mae materion sy'n ymwneud â dehongli'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn dal i gael eu trafod yn Senedd Ewrop ac er bod potensial i bethau newid, pa benderfyniadau bynnag a wneir yn y pen draw, ni fyddant yn ddigon sylweddol i ailsefydlu'r hen ffyrdd o weithio. Mae angen i'r dulliau modern sydd eisoes wedi'u cyflwyno barhau er mwyn sicrhau bod y ffyrdd newydd o weithio yn darparu gwasanaeth iechyd o safon fyd-eang.

Rhaid ystyried hefyd y mater o ailgyflunio mewn unrhyw senarios cynllunio. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod gwerthusiad cynhwysfawr diweddar o oriau gwaith wedi'i gynnal gan y Cydgysylltwyr Meddygon Iau ac mae hwn yn dangos mai tua 41% fyddai ein cyfradd gydymffurfio ar gyfer 2009 heb newid y patrymau gwaith cyfredol.

Rhagwelir mai cydweithio rhwng pobl ar rotas, cyfarwyddwyr clinigol, rheolwyr risg a threfnwyr ôl-radd fydd yn galluogi'r rotas mwyaf priodol ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r Gyfarwyddeb Oriau

Gwaith Ewropeaidd ac y diwellir anghenion cleifion.

Dr Brian Gibbons AC
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyswllt: Linda Ware, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ffôn 029 2082 3394